

216)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council. : cyfarfod misol/monthly meeting, nos Lun Gorffennaf 17eg 2023-- 17/07/23—8pm at Tabernacle Chapel Vestry, Pencader.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors: M. Griffiths, D. Davies, A. Davies, V. Davies, H. Lewis, S. Mason, R. Thomas,

C. Sir L. Evans

Ymddiheuriadau. : Y. Griffiths, M. Jones

Clerc. : Anita Evans Ymwelwyr/visitors. neb

1)Cadeiriwyd gan M. Griffiths. Croesawodd bawb, a nodwyd ymddiheuriadau. Meeting chaired by M. Griffiths who welcomed all and apologies noted.

2)Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/declaration of interest/none

3)Heddlu. : neb. Cafwyd y data misol. The PCSO was not present.

4)Cofnodion mis Mehefin /June minutes- found to be correct—prop. D. Davies, sec. A. Davies.

5)Materion y Clerc/Clerk matters :

a)Cyngor Sir. : atebion oddiwrth yr Adran Briffyrdd. : Responses from Highways.

(i)arwyddion ffyrdd i'w hail osod i wynebu ffordd cywir/road signs to be corrected;

(ii)Arwydd ildio heol Garej Highway—ymddiheuro am yr oedi—angen postyn newydd ac wedi gosod arwydd dros dro yr ochr arall/Give Way sign on junction with Highway Garage still not replaced, apologies, and temporary sign has been put up;

(iii)Gratiau ar y ffordd yn achosi problemau i yrrwyr—yn enwedig tu fas toiledau Alltwalis—mynd i gael sylw ac efallai eu hail osod/drains on our roads are too low and a problem for drivers especially outside the toilets in Alltwalis—will be seen to, and perhaps raised;

(iv)heol Pencader i Gwyddgrug(ar ol Tanfforddoug)yn wael iawn, ond dim arian i gael arwynebedd newydd eleni/the Gwyddgrug end of the Pencader road is in very poor state, but there is no money for resurfacing this year;

(v)Pont Pencader(Cae'r Felin)gwaith yn mynd i ddechrau'n fuan/Pencader bridge(near the school)-work will start very soon;

(vi)Arwydd ildio Maesawelon Gwyddgrug—mynd i'w adleoli/give way sign by Maesawelon to be re-sited.

(vii)C. Sir L. Evans wedi cael gwybod bydd llinellau melyn Wilkes'Head yn cael eu gosod yn yr Hydref/C. L. Evans has been informed that yellow lines will be painted near Wilkes'Head in October.

b)Cyfleusterau —cafwyd cyfarfod gyda Chris Evans ar safle Pencader ac Alltwalis ar 30/06/23. Yn bresennol A. Davies, G. Jones, Y. Griffiths a'r Clerc. Roedd y Clerc wedi rhestru gwaith i'w wneud, ond heb glywed nol ers hynny. Bydd llythyr yn cael ei anfon at Chris Evans/Conveniences. Following a site meeting with Chris Evans(C. Co. Council)Clerk has made a list of outstanding jobs, but no replies since 30/06/23.

217)5)Materion/Clerk matters.

(c)Cafnau blodau—aelodau'n bles ar y safon, a bydd Haydn Jones yn torri porfa o'u cwmpas yn gyson/planters seem to be doing well and Haydn Jones will trim area around where needed.

(ch) Pwyllgor Carnifal Llandysul—holi eto pam dim cyfraniad—C.Cymuned yn datgan fod eu penderfyniad yn derfynol./a further e-mail was received asking why no donation was given. The Council to advise that its decision is final.

(d)Defibrillators—un Alltwalis wedi ei ddefnyddio'n ddiweddar. Diolch i Eirian Jones am dynnu ein sylw fod angen padiau. Gan fod angen rhywun penodol i ofalu/gwrio'r rhain yn gyson dywedodd H. Lewis fod unigolyn ym Mrechfa yn gallu gwneud y gwaith, ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Melinnau Gwynt Brechfa. Cynnigiodd ein bod yn gofyn iddo weithio yn ein Plwyf ni, eiliodd D.Davies a phawb yn gytun/the Defibrillator in Alltwalis has been used lately, and we thank Eirian Jones for information. H.Lewis stated that there is a gentleman in Brechfa who inspects the items, and is paid for the work by Brechfa Wind Farm. She proposed that we ask him, D.Davies seconded and all agreed.

(dd)Ombudsman: Derbyniwyd cyngor cyfreithiwr yn dilyn ein cais blaenorol, ac mae'r cyngor wedi ymateb i'r Ombudsma a'r cwynydd. /Following our request for legal advice a reply has been received, and the Council has responded to the Ombudsman, and the complainant.

(e)Ymatebion wedi eu hanfon at Julia Davies a Ieuan Davies/we have responded to the requests in June meeting from Julia Davies, and Ieuan Davies, and they have accepted.

(f)Cornel Chwarae—cyfarpar wedi ei gywiro/Play Corner apparatus has been repaired.

(6)Ariannol/financial. : mantolen Mehefin—212 a wedi ei derbyn/June balance sheet reviewed and accepted. : prop. D. Davies, sec. A. Davies

Biliau i'w talu/bills to be paid: Cyflogau(wages)(June). : £2, 098.99. 28;Kangaloos-3rd July (£120.00); Clerk -costau ffon a stampiau(£20.15);Un. Llais Cymru/One Voice Wales training: M. Jones(£38.00); Defib. World—2 pads for Alltwalis. (£165.00); inc i'r printer (4 months)£17.96; Microsoft(Office 365) (£59.99); Geraint Rees—clearing large stones from Cemetery. £100. To be paid: prop. A.Davies;sec. D.Davies. Haydn £440

Cymeradwyd asesiad risg ariannol a barotwyd gan M Griffiths/financial risk assessment accepted. Prop. V.Davies, sec. A. Davies

8)Gohebiaeth/correspondence. :

- a) H. Lewis—ffurflenni claddu ar waith/appropriate burial forms being prepared.
- b) Un Llais Cymru—rhoddwyd manylion linc i'r wefan i'r cynghowyr/ the link to One Vales Wales website has been provided to the councillors.

218) Gohebiaeth/Correspondence.

- c)llythyr caredig iawn wedi ei dderbyn yn canmol gwaith Haydn Jones ym Mynwent Pencader—mae'r safle yn cael ei chadw lan i safon uchel bob amser/a very complementary letter has been received congratulating Haydn Jones on his excellent work in keeping the Parish Cemetery in an immaculate condition. Congratulations have been passed on to Haydn. It is very satisfying for the Council to receive positive comments.
- ch) Gwahoddiad i Neuadd Tregroes ar Awst 4ydd/invitation to Tregroes Hall on August 4th.
- d) Glasydorlan New Inn wedi cysylltu i ddweud fod y postyn trydan o flaen y tŷ wedi pydru. Gan fod hyn yn beryglus mae'r C. Sir wedi bod allan yn gosod postyn arall/following a report from Glasydorlan New Inn re electricity pole which is rotting, the County Council are replacing it with a steel pole.
- dd)Mair Jones wedi anfon e-bost am 2 gar amheus ym mhentref Pencader—ac wedi cysylltu â'r Heddlu/a report of 2 cars in the vicinity of Bro'r Hen Wr, Pencader arousing suspicion—police informed.
- e)Cais wedi dod i ofyn ydy hi'n bosibl taenu llwch ym Mynwent Pencader—nid yw hyn yn bosibl/a request has been made for the possibility of scattering ashes on the Parish Cemetery—this is not possible.
- f)C.Sir Gâr—adolygiad cymunedol--- byddwn yn ymateb trwy gadw at ein cynnig mis Mawrth i uno'r ddwy ward./community review—we will respond by keeping to our March proposal of unwarding.
- ff)canllawiau cyfraniadau—trafodwyd a byddwn yn cwblhau'r ddogfen ym Medi/donation criteria dicussed and document to be completed in September.
- g)cyfarfodydd hybrid—paratoadau bron yn barod gyda'r bandeang yn Tabernacl—D. Davies yn trefnu/we are nearly ready to offer hybrid meetings.

9)U. Fater Arall(gwybodaeth yn unig)A. O.B. from Councillors(information only). :

- a)Clerc am drafod lwfansau IRPW ym Medi/we will discuss allowances in September.
- b)Ardd Goffa—angen trefnu cynlluniau plannu coed/Garden of Remembrance in Pencader—discuss re-planting next meeting.

c)Dim cyfarfod mis Awst/no meeting in August.

ch)angen cyfarfod i dderbyn gwaith y cyfrifydd—8.30yh 25/07/23—meet to confirm Audit figures.

H. Lewis----rhestr/needs a list of defibrillators'sites.

G. Jones—hewlydd Pencader mewn cyflwr gwael,-dywedodd C. Sir L.Evans fod arwynebedd newydd i'w roi ar yr heol o Glantweli Fawr i sgwar Pencader/road surface in Pencader in very poor state—C. C. L. Evans says resurfacing will start soon.

M. Griffiths—hewl Dol-Illan mewn cyflwr gwael iawn/beiciau modur yn gyrru'n gyflym o amgylch Pontweli a'r ffordd osgoi/hysbysfwrdd Pontweli angen sylw/Dol-Illan road in a very poor state/motor bikes are a nuisance speeding through Pontweli and on the by-pass/Pontweli noticeboard needs attention. Recently attended a meeting where re-cycling was emphasised—70% is the goal.

219)Apeliadau/Appeals.

Penderfynwyd cyfrannu/decided to donate. :

Kids' Cancer Charity. :	£100. 00	prop. D. Davies, sec. A. Davies
-------------------------	----------	---------------------------------

Canoe Centre	£250. 00	prop. V. Davies, sec. S. Mason.
--------------	----------	---------------------------------

Gorffenwyd/ended 9.55pm

220)

1)Gorffennaf 25ain 8.30yh /25/07 8 30pm

Presennol/present. :

M. Griffiths, A. Davies, S. Mason, D. Davies, Y. Griffiths, G. Jones, V. Davies, Clerc

Ymddiheuriad am absenoldeb/Apology for absence: Haulwen Lewis, Mair Jones, Rhian Thomas.

Cynhaliwyd cyfarfod i dderbyn gwaith yr Archwiliwr mewnol ar gyfer Archwiliad allanol. Trafodwyd y dogfennau ac gynnigiwyd gan A.Davies eu bod yn gywir, eiliodd V.Davies ac roedd pawb yn gytun..

Anfonir y dogfennau at Archwilio Cymru.

Cyfeirnod y dudalen fydd 220 (1)

Councillors met to approve the accounting statements received from the internal auditor.

A.Davies proposed that the statements are correct, V.Davies seconded, and all agreed.

The documents will now be sent to Audit Wales.

(Reference. : 220(1))

DRAFT